

TUDALEN 16

Cofnodion cyfarfod Cyngor Dinas Bangor a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn a thrwy fideo-gynadledda Zoom ar **3ydd Hydref 2022** am 6.30 pm.

PRESENNOL:- Ei Deilyngdod y Maer, Cyng. Gwynant Roberts, y Dirprwy Faer y Cynghorydd Elin Walker Jones, y Cyng. Janet Abas, Cyng. Steve Bell, Cyng. Salamatu Fata, Cyng. Medwyn Hughes, Cyng. Huw Wyn Jones, Cyng. John Wynn Jones, Cyng. Gareth Parry, Cyng. Meic Pattison, Cyng Eirian Williams Roberts, Cyng. Gareth Roberts, Cyng John Wyn Williams

Swyddogion:- Martin Hanks (Cyfarwyddwr Dinesig) Howard Huws (Cyfieithydd), Sioned Jones (Cofnodion).

54/ 22 YMDDIHEURIADAU

Cyng Nigel Pickavance.

55/22 DATGAN BUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Dim.

56/22 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD

Dim.

57/22 DERBYN ANERCHIAD GAN Y CYFARWYDDWR DINESIG NEWYDD

Roedd y Cyfarwyddwr Dinesig wedi dosbarthu ei adroddiad i'r Aelodau ymlaen llaw. Roedd yn cynnwys manylion prosiectau a sefydliadau yr oedd wedi cysylltu â nhw ers dechrau yn y swydd. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith ei fod wedi'i benodi i Fwrdd Llywio Bwyd Da a Bwrdd Cymunedol Prifysgol Bangor.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a diolch i'r Cyfarwyddwr Dinesig am ei ymdrechion.

58/22 CYMERADWYO ADRODDIADAU ARIANNOL:

(i) **Datganiad Ariannol Blynnyddol**

(ii) **Adroddiad Archwilio Mewnol**

Roedd y dogfennau ariannol wedi'u dosbarthu ymlaen llaw i'r Aelodau. Roedd y prif sylw gan yr Archwiliwr Mewnol yn cyfeirio at yr anawsterau a allai godi oherwydd materion staff.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a diolch i'r Cyfarwyddwr a staff y Cyngor am sicrhau adroddiad boddhaol er gwaethaf diffyg staff ar adegau.

59/22 CYMERADWYO CYNNIG GWYNEDD I SEFYDLU CANOLFANAU IEUENCTID

Yn dilyn cyflwyniad i'r Cyngor yn y cyfarfod diwethaf gan Wasanaethau Ieuenctid Gwynedd, derbyniwyd cynnig ysgrifenedig yn manylu ar y costau a'r trefniadau gweithio. Roedd hwn wedi'i gylchredeg ymlaen llaw i'r Aelodau.

PENDERFYNWYD: cymeradwyo sefydlu canolfan ieuencid yng Nghanolfan Gymunedol Coed Mawr i ddechrau, gyda golwg ar ychwanegu lleoliadau eraill, os bydd yn llwyddiannus.

60/22 CYMERADWYO CYNNIG I GYDNABOD GWASANAETH HIR

Papur wedi'i ddosbarthu cyn y cyfarfod .

Roedd 3 chynghorydd wedi rhoi blynyddoedd o wasanaeth (dros 20 mlynedd) i Gyngor y Ddinas a 2 aelod o staff wedi eu cyflogi am gyfnod hir hefyd. Ar ôl peth trafodaeth,

TUDALEN 17

PENDERFYNWYD

- a) cydnabod gwasanaeth hir y Cynghorwyr dan sylw drwy eu hanrhydeddu â Rhyddid Dinas Bangor.
- b) rhoi cydnabyddiaeth ariannol, o £250.00 i'r aelodau staff hirsefydlog.

61/22 CEFNOGI M-SPARC AR Y Ffordd

Cylchredwyd y papur cyn y cyfarfod.

Mae M-Sparc ar y Ffordd yn agor ym Mangor ym mis Hydref am chwe mis. Cynigiwyd bod Cyngor y Ddinas yn cefnogi'r prosiect hwn.

PENDERFYNWYD cyfrannu £3,000 at y sioe deithiol, ar ôl derbyn rhestr fanwl o weithgareddau.

62/22 CEFNOGI DIGWYDDIADAU BLYNYDDOL

Cylchredwyd y papur cyn y cyfarfod.

(a) Sul y Cofio -

PENDERFYNWYD parhau â'r trefniadau arferol ar gyfer y gwasanaeth a'r orymdaith.

- (b) **Arddangosfa Tân Gwyllt.** Yn dilyn y toriad gorfodol oherwydd Covid, roedd y Llewod wedi penderfynu peidio â chymryd cyfrifoldeb am y noson Tân Gwyllt. Cynigiodd y Cyfarwyddwr Dinesig y dylai Cyngor y Ddinas gymryd drosodd y gwaith o drefnu'r digwyddiad hwn.

PENDERFYNWYD

- (i) Cynnal y digwyddiad yn Ffordd y Traeth a gofyn i'r Clwb Rotari a oedd ganddynt ddiddordeb mewn trefnu digwyddiadau yn y dyfodol.
- (ii) Neilltuo swm o £5000 ar gyfer prynu tân gwyllt.
- (c) **Nadolig** Wedi rhywfaint o drafodaeth am leoliad y goleuadau Nadolig a'r coed,
PENDERFYNWYD
 - (i) Parhau gyda'r goleuadau Nadolig fel y llynedd ac ym Mangor Uchaf; ac ystyried ymestyn i Ffordd Caernarfon y flwyddyn nesaf.
 - (ii) Gosod coeden Nadolig yn Nhan y Fynwent a ger y Gadeirlan ac i ganfod a fyddai modd defnyddio'r goeden artiffisial ger y Cloc.

(d) **Gwasanaeth Carolau**

Nid yw Awyr Las yn trefnu gwasanaeth carolau eleni. O ystyried poblogrwydd digwyddiad y llynedd

PENDERFYNWYD bod Cyngor y Ddinas yn cymryd cyfrifoldeb dros y digwyddiad hwn. Y Cyfarwyddwr Dinesig i gysylltu â Cytûn Bangor.

63/22 CYMERADWYO DIWYGIAD I'R DOGFENNAU GRANT

Roedd dogfennau grant y Cyngor wedi'u diwygio i gymryd Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor i ystyriaeth. Roedd y dogfennau hyn wedi'u dosbarthu ymlaen llaw i'r Aelodau.

Yn ystod y drafodaeth awgrymwyd hefyd bod y gwaith papur yn rhy gymhleth ar gyfer ceisiadau bach.

PENDERFYNWYD :

- i) cymeradwyo'r gwelliannau
- ii) paratoi canllawiau newydd symlach ar gyfer ceisiadau hyd at £250.00.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.30pm

CYFARWYDDWR DINESIG – Martin Hanks – CITY DIRECTOR